SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE















Gwobrau Addysg Oedolion
Ysbrydoli!™
Inspire!™
Adult Learning Awards

# **Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion 2026:** Cyfleoedd nawdd

## Eich gwahoddiad i weithio gyda nis

# Ni yw'r Sefydliad Dysgu a Gwaith

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn gorff polisi ac ymchwil annibynnol gyda ffocws ar ddysgu gydol oes a gwaith gwell. Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial. Ymchwiliwn yr hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi a datblygu syniadau newydd i wella ymarfer. Rydym eisiau i bawb gael cyfle i wireddu eu huchelgais a'u potensial mewn dysgu, gwaith a drwy gydol bywyd. Rydym yn credu fod gweithlu mwy medrus, mewn swyddi ar dâl gwell, yn dda i fusnes, yn dda i'r economi ac yn dda i gymdeithas.

Mae ein gwaith o fudd i unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r economi yn ehangach. Rydym eisiau gweithio gyda phartneriaid i ysbrydoli pobl i ddysgu, cynyddu eu sgiliau, gwella eu hiechyd a'u llesiant a sicrhau cynnydd mewn bywyd.




**Rydym angen eich cefnogaeth ar gyfer ein gweithgaredd hyrwyddo ac ymgyrchoedd proffil uchel.**

## Am y gwobrau

Mae Gwobrau Ysbrydoli! yn dangos effaith buddsoddi mewn dysgu gydol oes. Mae eu ffocws ar roi llais i ddysgwyr i ddathlu eu llwyddiannau, cymhellion a heriau.
Mae'r straeon hefyd yn rhoi cipolwg ar arloesi a'r hyn sy'n gweithio i adeiladu'r fframwaith polisi gwell sydd ei angen i gynyddu cyfranogiad oedolion mewn dysgu.
Rhoddir sylw i enillwyr y gwobrau ar draws y cyfryngau fel uchafbwynt allweddol o ymgyrch yr Wythnos Addysg Oedolion sy'n ysbrydoli ac yn agor y drysau i eraill.

## Gweithio gyda ni

Rydym angen eich cefnogaeth. Os yw'ch sefydliad yn angerddol am werthfawrogi grym dysgu a'i effaith, yna ymunwch â ni a bod yn rhan o ddathliad Gwobrau Ysbrydoli! 2026.

## Prif noddwr

GWERTHWYD!

Hoffem weithio gyda phrif noddwr ar gyfer y Gwobrau Ysbrydoli! – byddwch yn cael budd hyrwyddo proffil uchel yn y cyfnod cyn, yn ystod ac yn dilyn y seremoni wobrwyo. Caiff enw eich sefydliad ei gysylltu mewn pennawd gyda brandio'r Gwobrau Ysbrydoli! Cewch eich gwahodd i ymuno â'r panel dethol a byddwch yn ymuno â ni fel gwesteiwyr ar gyfer y seremoni wobrwyo swmpus, gyda gwahoddiadau cyfarch ar gyfer hyd at ddau fwrdd o wyth.

Caiff eich brandio ei gynnwys yn yr holl waith hyrwyddo ar gyfer Gwobrau ysbrydoli! cyn y seremoni ac ar y deunyddiau cyhoeddusrwydd wedyn. Caiff hefyd ei gynnwys yn y ffilmiau a gynhyrchir ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a'r cyflwyniadau ar noswaith y seremoni, lle byddwch yn rhoi araith groeso. Bydd eich logo yn ymddangos ar ein gwefan gyda dolen i wefan eich sefydliad.




## Noddwr categori gwobr

**£2,100 +VAT**

Fel noddwr categori Gwobr Ysbrydoli!, caiff eich brand le amlwg yn ein hymgyrch hyrwyddo proffil uchel, yn cynnwys sianeli cyfryngau cymdeithasol a platfformau digidol y Sefydliad a Dysgu a Gwaith.

Caiff eich logo le amlwg yn y seremoni wobrwyo – gan fod ar y llwyfan ac yn yr holl ddeunyddiau hyrwyddo ar gyfer y categori penodol, ar-lein ac mewn print.

Hefyd, caiff eich brand ei gynnwys yn ein fideo swyddogol a'i restru ar ein gwefan gyda dolen uniongyrchol i'ch safle eich hun. I ddathlu gyda ni, byddwch hefyd yn cael un bwrdd o wyth lle yn ein cinio yn y seremoni wobrwyo swmpus.

# Noddi bwrdd ar gael

## Bwrdd o 8: £480 a TAW (£576)
## Yn cynnwys pryd o fwyd 2 gwrs a lluniaeth



“Fedra i ddim credu eu bod nhw wedi sôn amdana i yn y Senedd! Cefais noson wych yn y gwobrau a rwy'n meddwl eu bod yn ffordd wych i roi'r gair ar led am addysg oedolion. Rydw i'n meddwl ei bod yn wythnos fendigedig. Fe gefais hefyd gyfweliad arall, y tro yma gyda Radio Cymru.”

“Roedd yn brofiad gwych ar y noson wobrwyo. Roedd pawb mor gyfeillgar a roedden nhw yn fy helpu i beidio mynd yn rhy nerfus. Byddwn yn hapus pe byddwn ond yn ysbrydoli un person i roi cynnig ar rywbeth newydd. Rydw i'n bwriadu dal ati i wirfoddoli gan mod i wir yn mwynhau'r sesiynau wythnosol ac wedi cael llawer o adborth gan gleientiaid a welodd bytiau ar Wales Online ac anfon neges i ddweud eu bod wedi mwynhau'r sesiynau ac yn gobeithio fod mwy i ddod.”

“Mae ennill Gwobr Ysbrydoli! Addysg Oedolion wedi cryfhau fy nghred yng ngrym dysgu gydol oes. Mae'r gydnabyddiaeth yma yn fy nghymell i barhau i dyfu a gwireddu fy mreuddwydion. Rwy'n wirioneddol ddiolchgar am yr anrhydedd yma a'r gefnogaeth sydd wedi gwneud hynny'n bosibl.”

“Ar ran y tîm a finnau, rydym wrth ein bodd i ennill gwobr mor bwysig mewn digwyddiad mor wych. Roedd yn hyfryd gwrando ar straeon yr unigolion a'r grwpiau a'u llwyddiannau. Roeddem wrth ein bodd i fod ymysg cynifer o bobl anhygoel sydd wedi dal ati i ddysgu. Roedd cynllunio a gweithredu'r digwyddiad yn berffaith, ac i chi fel tîm mae'r diolch am hynny. Ar ran pawb ohonom diolch am eich cefnogaeth a'ch cydnabyddiaeth am yr hyn a wnawn ond hefyd i chi am eich ymroddiad am roi ail gyfle i bobl.”


Gwobrau Addysg Oedolion
Ysbrydoli!
Inspire!
Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week


Llywodraeth Cymru


DAL ATI I DDYSGU | NEVER STOP LEARNING




Gwobrau Addysg Oedolion
Ysbrydoli!
Inspire!
Adult Learners' Week
Gina Powell



# Categorïau Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion 2026:

## Gwobr Sgiliau Hanfodol Bywyd

Mae sgiliau llythrennedd, rhifedd, ESOL, digidol, gallu ariannol, llythrennedd iechyd a dinasyddiaeth yn ganolog i ragolygon swyddi a gyrfaoedd pobl a'r gallu i fod yn weithgar a chymryd rhan yn eu cymunedau. Mae newidiadau economaidd a chymdeithasol a datblygiadau mewn technoleg yn cynyddu eu pwysigrwydd.

Bydd enillydd y wobr hon yn dangos effaith meithrin sgiliau hanfodol a'r trawsnewid y gall hynny ei gael. Gall hyn fod yn cynyddu hyder, mynediad i waith neu gynnydd mewn gwaith, cymryd rhan mewn darpariaeth dysgu fel teulu, y gallu i gysylltu mwy gyda gwasanaethau cyhoeddus a rhyngweithio cymdeithasol.

## Cwrdd â chyn enillwyr



**Bethan Humphreys**



**Stephen Reynolds**



**Grŵp Dynion Vale People First**

"Rydw i wedi bod yn rhan o'r Grŵp Dynion o'r cychwyn cyntaf, a rydw i wrth fy modd. Rydw i'n medru darllen ac ysgrifennu nawr, ac mae gen i swydd gyda'r grŵp. Dydych chi byth yn rhy hen i ddysgu ac mae'n well pan fedrwch gael hwyl yr un pryd. Roeddwn yn arfer teimlo'n ddiflas a chwyno llawer, ond nawr rydw i'n hapus drwy'r amser."

**Grŵp Dynion Vale People First**

## Gwobr Oedolyn Ifanc

Nid yw'r profiad cyntaf o addysg bob amser yn gadarnhaol i bawb ond mae llawer o bobl ifanc yn dychwelyd i addysg ôl-orfodol oherwydd eu bod eisiau gwneud newid cadarnhaol ac adeiladu dyfodol gwell. Efallai na fydd rhai pobl ifanc wedi medru cymryd rhan lawn yn yr ysgol oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu efallai bod ffactorau eraill wedi tarfu ar eu bywydau.

Bydd enillydd y wobr hon yn unigolyn a ddangosodd ymroddiad gwirioneddol i'w taith ddysgu eu hunain, ac sy'n un i gadw golwg arnynt ar gyfer y dyfodol! Mae'r wobr ar agor i unrhyw ddysgwr 16-25 oed (rydym yn rhoi croeso arbennig i enwebiadau ar ran pobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl ifanc sydd wedi gadael gofal a gofalwyr ifanc).

## Cwrdd â chyn enillwyr



**Osian Lloyd**



**Wilnelia De Jesus**



**Ewan Heppenstall**

"Rwy'n gobeithio y gall fy stori ddangos i bobl ifanc o liw y dylent anwybyddu ystrydebau gyrfa. Gallwch wneud unrhyw beth os ydych yn benderfynol ac yn fodlon gweithio'n ddigon caled."
**Wilnelia De Jesus**

## Gwobr Sgiliau Gwaith

GWERTHWYD!

I lawer o bobl, y cymhelliant i ddatblygu eu sgiliau yw gwella eu rhagolygon gwaith, i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd neu eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o beidio gweithio. Mae gwaith teg yn rhoi cyfleoedd i barhau i ddysgu a datblygu sgiliau yn y gweithle, gan arwain at gynnydd a chyflogaeth cynaliadwy.

Mae'r wobr hon yn cydnabod unigolyn a all ddangos penderfyniad eithriadol i wella eu profiad o waith drwy ddysgu ac a all arddangos y rôl a fu gan ddysgu wrth sicrhau swydd neu sicrhau cynnydd mewn gwaith.

## Cwrdd â chyn enillwyr



**Isaac Fabb**



**Emma Howells**



**Will Hougham**

"Er fod rhwystrau, doedd dim byd yn fwy gwerth chweil na chael gyrfa a gredwn unwaith oedd allan o fy nghyrraedd. Gan edrych yn ôl yn awr, rwy'n sylweddoli fod yr heriau yn wir wedi fy helpu i ganolbwyntio a bod yn fwy penderfynol i wneud yr hyn roeddwn eisiau."

**Isaac Fabb**

## Gwobr Newid Bywyd

GWERTHWYD!

Mae dysgu gydol oes yn agor drysau i gyfleoedd newydd ac yn grymuso unigolion i ffynnu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Wrth i'r boblogaeth dyfu a heneiddio a thechnoleg newydd yn datblygu, rydym i gyd yn gweithio am fwy o flynyddoedd, yn newid gyrfaoedd yn amlach ac yn dysgu sgiliau newydd drwy gydol ein bywydau.

Mae'r wobr hon yn cydnabod oedolyn sydd wedi croesawu dysgu gydol oes ac all ddangos profiadau dysgu sydd wedi newid bywyd. Bydd wedi manteisio ar gyfleoedd i ailgysylltu gydag addysg a pharhau i ddysgu a sicrhau cynnydd. Gall enillydd y wobr hon fod yn rhywun sydd wedi symud ymlaen drwy wahanol lefelau o ddysgu, sy'n dangos angerdd am ymgysylltu gydag addysg a hyfforddiant gan ddangos nad yw hi byth yn rhy hwyr am ail gyfle, cyfeiriad newydd neu ddechrau newydd.

## Cwrdd â chyn enillwyr



**Lucy Willis**



**John Spence**



**Daniel Morgan**

"Does dim geiriau i ddisgrifio'r ymroddiad, amynedd ac anogaeth a gefais gan fy nhiwtoriaid. Roeddwn yn filwr toredig ar y dechrau, ond nawr ar ôl taith hir rydw i wedi symud ymlaen ac yn rhedeg fy nghwmni addysgu meddygol fy hun."

**John Spence**

## Gwobr Siaradwr Cymraeg Newydd

GWERTHWYD!

Yr uchelgais yng Nghymru yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ar gyfer oedolion mae cyfleoedd i ddysgu ar-lein, drwy ddosbarth cymunedol neu yn y gweithle.

Mae'r wobr hon yn cydnabod unigolyn sydd wedi mynd ati i ddysgu Cymraeg drwy ddilyn cwrs Dysgu Cymraeg ar lefel Mynediad neu Sylfaen. Nid ydym yn disgwyl i enillydd y wobr fod wedi meistroli'r iaith yn llwyr, fodd bynnag byddem yn hoffi i'r sawl a enwebir fod wedi dangos ymroddiad i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg ac i ddefnyddio'r iaith o fewn eu teulu, yn eu cymuned neu yn eu gweithle.

## Cwrdd â chyn enillwyr



**Foo Seng Thean**



**Rhiannon Norfolk**



**Tom Dyer**

"Mae'n hwyl dysgu Cymraeg gyda fy meibion, eu helpu gyda'u gwaith cartref ac ysgrifennu sylwadau Cymraeg mewn dyddiadur. Nawr, pan maen nhw eisiau ysbrydoliaeth, maen nhw'n dod ataf i."

**Foo Seng Thean**

# Gwobr Heneiddio'n Dda

Gall dysgu pan mae pobl yn hŷn wneud cyfraniad sylweddol i drechu unigrwydd, cadw mewn cysylltiad, meithrin hyder a chadw ffordd actif o fyw.

Mae'r wobr hon yn cydnabod gwerth parhau i ddysgu ac ennill sgiliau newydd i oedran hŷn. Bydd yn dangos y cyfraniad a wnaiff llawer o bobl hŷn i ddysgu gydol oes. Dylai enillydd y wobr ddangos pam eu bod wedi parhau i ddysgu neu gymryd rhan mewn dysgu pan oeddent yn hŷn. Gallant fod yn weithgar wrth gynnal dysgu a drefnir ganddynt eu hunain yn eu cymuned neu fod yn trosglwyddo eu sgiliau ar draws cenedlaethau. Mae'r wobr hon yn agored i ddysgwyr dros 60 oed.

## Cwrdd â chyn enillwyr




**Gloria Beynon**



**John and Val Snare**



**Tony Morton**

"Mae dysgu wedi ailgynnau fy meddwl tu hwnt i ofal plant, ac yn hwb i fy hyder a llesiant cyffredinol, ac mae gwirfoddoli yn brofiad gwych a byddwn yn ei argymell i unrhyw un o unrhyw oedran."

**Gloria Beynon**

# Gwobr Dysgu am Iechyd Gwell

GWERTHWYD!

Mae dysgu a sgiliau yn allwedd i fynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb mewn iechyd. Mae'n hybu hyder, yn cefnogi iechyd meddwl ac iechyd corfforol, yn meithrin cysylltiadau cymdeithasol ac yn rhoi'r sgiliau i bobl y maent eu hangen i ffynnu ar hyd eu bywyd.

Mae'r wobr yn dathlu dysgwr sydd wedi gwella ei iechyd a llesiant – gall fod wedi goresgyn heriau iechyd neu ymdopi â chyflyrau cronig. Mae wedi ymgysylltu gyda dysgu fel rhan o adferiad neu gall fod wedi ei gyfeirio at ddarpariaeth dysgu gan weithiwr proffesiynol mewn gofal iechyd. Bydd ffocws y wobr hon ar fuddion dysgu i gefnogi iechyd a llesiant, gall enillydd y wobr arddangos gwerth presgripsiynu cymdeithasol ac ymagwedd ataliol at ofal iechyd.

## Cwrdd â chyn enillwyr



**Catrin Pugh**



**Alan Hardie**



**Mandy Price**

"Wnes i erioed feddwl y byddwn i'n byw, heb sôn am ffynnu, yn y bywyd sydd gen i yn awr. Mae addysg wedi rhoi rheolaeth o fy mywyd yn ôl i fi. Mae fy stori yn profi ei bod yn bosibl, os ydych yn ddewr a phenderfynol, i lwyddo mewn unrhyw beth"

**Catrin Pugh**

# Gwobr Rhannu Dyfodol

Mae gan Gymru hanes balch o groesawu pobl o bob rhan o'r byd, yn cynnwys ffoaduriaid ymfudwyr a'r rhai sy'n ceisio nodded. Mae'r wobr hon am ddathlu llwyddiant anhygoel unigolion a ddewisodd wneud Cymru yn gartref iddynt a'r cyfraniadau a wnânt i'n cymunedau.

Edrychwn am rywun sydd wedi croesawu dysgu, wedi datblygu sgiliau newydd a'u defnyddio i symud ymlaen i addysg bellach, gwaith neu wirfoddoli. Mae'r wobr hon yn gyfle i roi sylw i'w gwaith caled, cydnerthedd a'r effaith gadarnhaol a gawsant ar y bobl a'r lleoedd o'u hamgylch.

## Cwrdd â chyn enillwyr



**Fatma Al Nahdy**



**Hisham Saeed**



**Walid Musa Albuqai**

"Ychydig iawn o Saesneg oedd gen i pan symudais i Gymru gyntaf. Fe wnaeth fy ngweithwyr cymorth helpu llawer, ac fe wnes wirfoddoli mewn siop elusen i ymarfer fy Saesneg a dechrau gwneud ffrindiau gyda phobl yn y gymuned leol"

**Walid Musa Albuqai**

## Gwobr Hywel Francis am Effaith Gymunedol

I lawer o bobl, mae'r llwybr yn ôl i ddysgu yn dechrau'n agos gartref, mewn lleoliad yn y gymuned neu fel rhan o brosiect cymunedol. Mae gan lawer o brosiectau cymunedol ddull seiliedig ar le i fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol, dileu rhwystrau i ddysgu a rhoi llwybrau i ddysgu a sgiliau. Maent yn cydnabod rôl addysg fel galluogydd allweddol fydd yn rhoi'r hyder a'r cysylltiadau mae pobl eu hangen i lwyddo.

Bydd enillydd y wobr hon yn brosiect cymunedol a redir gan unigolyn neu sefydliad. Rhaid i'r prosiect fod yn trawsnewid bywydau'n llwyddiannus drwy greu cyfleoedd cymunedol sy'n estyn allan at bobl na fyddent fel arall yn ymwneud ag addysg ffurfiol neu anffurfiol a datblygu sgiliau.

## Cwrdd â chyn enillwyr



**Community Impact Initiative CIC**



**Compass Community Hub**



**Springboard**

"Mae'r tîm wedi gweithio'n galed i lunio dewis o gyrsiau a datblygu cynnig sy'n newid drwy'r amser sy'n annog pawb i ryw fath o addysg oedolion, beth bynnag eu lefelau, diddordeb a galluoedd. Gall hyn gynnwys rhai a all fod yn niwro-amrywiol, sydd ag iechyd meddwl gwael neu sgiliau isel.

"Roedd y gwobrau yn hwb enfawr i hyder y tîm, ac yn ein annog i barhau i weithio i gefnogi pobl yng nghymuned Merthyr Tudful i'w galluogi i newid eu bywydau er gwell drwy ddysgu a sgiliau"

**Community Impact Initiative CIC**

## Gwobr Llais Dysgwyr

Caiff yr enillydd gwobr ei ddewis gan banel o ddysgwyr.

Bydd ein panel Llais Dysgwyr yn edrych am unigolyn a ddefnyddiodd eu profiadau dysgu i ysbrydoli eraill neu sydd wedi dylanwadu ar newid a gwelliannau wrth gyflwyno addysg oedolion yn cynnwys dysgwyr mewn gwneud penderfyniadau, dynodi bylchau a ffyrdd gwell o weithio yn ogystal â defnyddio eu rhwydweithiau i hyrwyddo cyfleoedd.

Gall enillydd y wobr fod wedi dod yn hyrwyddwr dysgu ar lefel genedlaethol neu leol. Gallant fod yn weithgar yn eu cymuned, yn annog, cefnogi a chyfeirio at gyfleoedd. Gallant fod yn ymwneud ar unrhyw lefel mewn rhannu eu profiadau i ysbrydoli, mentora a llywio eraill. Gallant ddangos eu bod yn defnyddio eu profiadau i sbarduno newid a gwelliannau mewn darpariaeth.

## Cwrdd â chyn enillydd



**Gina Powell**

"Rydw i wedi gweld rhieni yn ailgysylltu gyda dysgu a chael ymdeimlad newydd o hunanwerth. P'un ai mynd i brifysgol neu ddim ond bod yn ddigon dewr i gymryd y cam cyntaf yw'r nod, rydw i yma i gerdded gyda nhw oherwydd fod pob cam ymlaen yn cyfri."

**Gina Powell**

## Effaith ymgyrch

Mae straeon enillwyr Gwobrau Ysbrydoli! bob amser yn cael llawer o sylw yn y cyfryngau yn genedlaethol ac yn lleol oherwydd fod eu ffocws ar ddiddordeb mewn pobl a newid effaith bywyd ar bobl, teuluoedd a chymunedau. Llynedd roeddem yn falch i gyhoeddi Alun Wyn Jones yn llysgennad yr ymgyrch. Yn adnabyddus iawn am ei yrfa rygbi, mae hefyd yn gefnogwr angerddol i addysg a dysgu gydol oes. Ymunodd â ni ar gyfer gweithdy lansio yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, gyda negeseuon allweddol grymus a gafodd eu rhannu'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol a radio. Gan ychwanegu at fomentwm yr ymgyrch, cafwyd neges fideo arbennig i gefnogi ein hymgyrch gan Michael Sheen, yn ogystal â neges i longyfarch yr enillwyr.

Cafodd yr holl enillwyr sylw golygyddol yn y wasg, teledu a radio ac ar-lein. Ymddangosodd yr Wythnos Addysg Oedolion a Gwobrau Ysbrydoli! mewn 177 eitem yn ystod y cyfnod gwerthuso, gyda ffynonellau ar-lein yn cyfrannu 89.3%, y wasg 6.8% a darlledu 4.0%, gan roi cyfanswm OTS o 33,216,773. Roedd natur yr adroddiadau yn hollol gadarnhaol (177).

Rhoddwyd sylw ar ITV Cymru i Foo Seng Thean, enillydd gwobr Siaradwr Newydd (2025), gyda chyrraedd OTS o 179,000 yn ystod rhaglen newyddion amser brig. Mae'r seremoni wobrwyo yn uchafbwynt y calendr gan ddenu rhanddeiliaid a dylanwadwyr allweddol o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Mae'n ddyddiad hanfodol sy'n ysgogi cynhesrwydd, cyffro ac ysbrydoliaeth.

BBC RADIO WALES | fe news | itv CYMRU WALES | Wales247.co.uk | S4C | BusinessNewsWales | NATION·CYMRU | the Leader | SOUTH WALES Argus

## Ymunwch â ni fel noddwr

**Cynhelir Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion yng Nghaerdydd ar 23 Medi 206 yn ystod yr Wythnos Addysg Oedolion. I drafod y cyfleoedd hyn neu sicrhau eich pecyn nawdd, cysylltwch â: Kay Smith, Pennaeth Ymgyrchoedd, Datblygu a Pholisi kay.smith@learningandwork.org.uk.**

#paidstopiodysgu | sefydliaddysguagwaith.cymru/cy/